
Y CABINET DYDD MAWRTH, 17 MEDI 2019

Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Nia Wyn Jeffreys, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Catrin Wager a Cemlyn Rees Williams

Hefyd yn bresennol-

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), ac Annes Sion (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Eitem 5: Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol)

Eitem 6: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg) a Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Dwyfor/Meirion)

Eitem 7: Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) a Peter Simpson (Rheolwr Gwasanaethau Stryd)

Eitem 8: Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid)

1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorwyr Dyfrig Siencyn a Gareth Griffith.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion bryd

4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

5. COFNODION CYFARFODYDD A GYNHALIWDYD AR 16 AR 23 GORFFENNAF 2019

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y Cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y 16 ac y 23 Gorffennaf 2019 fel rhai cywir.

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFLOGAETH

Cyflwynwyd gan Cyng. Nia Jeffreys

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2018/19.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi eu bod wedi bod yn cyflwyno'r adroddiad yn flynyddol ers 2016. Mynegwyd fod yr adroddiad a gyflwynwyd yn adroddiad llawn am weithlu'r Cyngor. Ychwanegwyd fod nifer y staff wedi cadw yn sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf, er bod nifer o staff sydd yn gweithio yn llawn amser wedi codi tra bod nifer o staff rhan amser wedi lleihau.

Tynnwyd sylw at broffil oedran staff y Cyngor sydd hyn yn amlinellu fod 37.5% yn hyn na 50 oed ac ychwanegwyd fod cynlluniau i edrych yn fanylach ar hyn ynghyd a datblygu gweithlu ifanc. Mynegwyd fod merched mewn Arweinyddiaeth yn un o flaenoriaethau'r Cyngor yng Nghynllun y Cyngor a phwysleisiwyd fod angen annog merched mewn i gyfleodd cyffroes i ddatblygu.

Nodwyd fod cynnydd i 9.45 diwrnod y pen o absenoldebau salwch yn 2018/19 ond a bod y Cyngor yn parhau i fod gyda'r isaf ymysg awdurdodau lleol Cymru. Ymhelaethwyd gan nodi fod y rhif hwn yn gyfartaledd ar draws y Cyngor a bod y gwaith yn cael ei wneud yn y gwasanaethau ble mae niferoedd ar eu huchaf. Dros y blynyddoedd, nodwyd, mai straen oedd y prif reswm dros salwch ond mynegwyd fod gwaith wedi ei wneud a bod staff yn fwy parod i siarad am iechyd meddwl.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd o ran Recriwtio a Phenodi fod problemau wedi codi er mwyn denu ymgeiswyr i weithio mewn rhai meysydd megis maes gofal, gwaith cymdeithasol ond fod ymdrechion wedi ei gwneud i edrych ar y materion hyn. Pwysleisiwyd fod 12 prentis yn cychwyn yn y Cyngor yn yr wythnosau nesaf a bod pedwar o'r rhain yn benodol yn y Maes Oedolion, Iechyd a Llesiant.
- Trafodwyd y canran trosiant yn parhau i fod yn gymharol isel, nodwyd gyda'r proffil oedran sydd yn arddangos cynnydd fod angen edrych a chadw golwg i sicrhau parhad gwasanaeth.
- Mynegwyd fod niferoedd staff yn parhau yn eithaf cyson a hyn yn dilyn blynyddoedd o doriadau, nodwyd fod angen edrych ymhellach i mewn i'r ffigyrau yma er mwyn deall sut bod hynny wedi digwydd. Nododd y Prif Weithredwr ei fod yn amau ei fod rhywbeth i'w wneud gyda'r niferoedd grantiau yr oeddem yn eu derbyn ond y byddai'n ymchwilio er mwyn sicrhau ein bod yn deall pam.

7. YSGOL ABERSOCH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Cemlyn Williams

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd rhoi caniatâd i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill Ysgol Abersoch, i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud a dyfodol yr ysgol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod niferoedd yn Ysgol Abersoch dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn isel yn gyffredinol, er bod cwmp diweddar yn golygu mai 9 disgybl sydd bellach yn mynychu'r ysgol. Mynegwyd fod y rhagamcanion ar gyfer y blynyddoedd nesaf yn rhagweld mai dim o'n 9 fydd ar y gofrestr ym Medi 2021.

Mynegwyd y buasai yn anghyfrifol i'r Cyngor i beidio edrych ar yr Ysgol ac o ganlyniad mae'n amser i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill am ddyfodol yr ysgol.

Ychwanegodd y Swyddog Addysg fod Ysgol Abersoch yn ysgol i blant rhwng 3 a 8 oed. Mynegwyd fod eu harolygiad ym Mehefin 2017 fod perfformiad yr ysgol yn 'Dda' ac mae Llywodraeth Cymru wedi gosod yr ysgol yng nghategori cymorth 'Melyn'. Esboniwyd fod gan yr ysgol gapasiti o 34, ond nad yw'r ysgol wedi bod yn llawn ers 1981. Tynnwyd sylw at y faith fod cynnydd wedi bod yn niferoedd yr yr ysgol yn 2016 ond fod cwmp wedi digwydd yn y blynyddoedd diwethaf.

Pwysleisiwyd nad yw Llywodraeth Cymru yn adnabod Ysgol Abersoch fel Ysgol Wledig, ond bydd yr Adran Addysg yn dilyn Cod trefniadaeth Ysgolion.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod canran uchel o blant y dalgylch ddim yn mynd i Ysgol Abersoch, nodwyd y bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach yn ystod y drafodaeth.
- Pwysleisiwyd y bydd y Cyngor yn sicrhau fod yr Adran yn dilyn y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

8. ADRODDIAD YMCHWILIAD CRAFFU AR ORFODAETH GWASTRAFF

Cyflwynwyd gan Cyng. Catrin Wager

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd gweithredu argymhellion ymchwiliad gweithgor Pwyllgor Craffu Cymunedau sy'n cynnwys y canlynol

- Defnyddio pwerau Deddf Gwarchod yr Amgylchedd (1990) Adrannau 46 i

47ZA sy'n ymwneud a chynhwysyddion gwastraff, i ddirwyo trigolion a busnesau sy'n gwaredu eu gwastraff ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir fel mater o flaenoriaeth

- Ymgymryd ag ymgyrch hyrwyddo sirol i godi ymwybyddiaeth o'r trefniadau gwastraff ac ailgylchu gyda ffocws penodol ar Ddinas Bangor a chydabod y gwahaniaethau daearyddol a demograffig yn y sir ar wahanol adegau o'r flwyddyn.
- Gosod sticeri "QR code" ar gynhwysyddion ailgylchu er mwyn darparu mynediad 24 i drigolion ar eu diwrnodau casglu gwastraff c ailgylchu a gwybodaeth am eitemau y gellir eu hailgylchu.
- Ffurfioli trefniadau cydweithio rhwng Adrannau'r Cyngor.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Casgliadau Clinigol a'r Gwasanaeth Casglu Arbennig sydd ar gael i helpu pobl hyn a phobl anabl i waredu eu gwastraff. Bydd modd gwneud hyn fel rhan o'r ymgyrch hyrwyddo ehangach.

Hyrwyddo rhwydwaith presennol o Ganolfannau Ailgylchu a chynnal ymgyrch benodol ar gyfer y Gwasanaeth Casglu Gwastraff Swmpus.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad wedi deillio o rybudd o gynnyg y cyn-gyngorydd Lesley Day yn y Cyngor Llawn ym Mawrth 2017. Ychwanegwyd fod y mater wedi ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Cymunedau a benderfynodd gynnal Ymchwiliad Craffu.

Cyflwynwyd yr Ymchwiliad Craffu gan nodi ei fod yn ymchwiliad trylwyr sydd wedi ymgysylltu ag ystod eang o drigolion Gwynedd. Tynnwyd sylw at yr argymhellion a mynegwyd fod ffocws penodol wedi bod ar Ddinas Bangor gan y bydd angen cyfarch y problemau yno mewn ffordd ychydig yn wahanol.

Mynegwyd fod yr argymhellion yn nodi defnyddio pwerau Deddf Gwarchod yr Amgylchedd - sydd yn cynnwys adrannau ble mae modd codi dirwy ar drigolion a busnesau. Pwysleisiwyd fod camau amlwg yn eu lle cyn y bydd dirwy yn cael ei roi i drigolion a busnesau sydd yn cynnwys trafod a'r unigolion a chynnal sgwrs. Nodwyd fod yr argymhellion sydd yn cael eu cynnyg yn rhai teg ac ymarferol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod mwyafrif o drigolion yn cadw eu biniau yn dilyn eu gwagio, ond ychwanegwyd fod achosion i'w gweld ble mae biniau yn cael eu cadw yn anhrefnus gan y gweithlu, holwyd os oes camau i leihau hyn yn ogystal. Mynegwyd fod camau yn cael ei gwneud ar hyn o bryd i addasu patrymau gwaith y gweithlu o drwy hyn, nodwyd, gobeithio y bydd yn lleihau problemau sydd yn codi o ran methu casgliadau ac mewn cwynion.
- Mynegwyd ei bod yn dda iawn fod y Cabinet yn cydweithio a'r Pwyllgor Craffu a nodwyd fod y camau yn annog gweithio a chymunedau. Mynegwyd fod toriadau wedi bod i'r adran yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac felly angen sicrhau fod adnoddau ar gael i'r cynllun.
- Pwysleisiwyd fod 40% o dai'r sir yn dai haf, ac felly holwyd os oes trefn yn ei le a rheolaeth dros y rhain. Nodwyd os mae'r Tai Haf yn talu treth busnes yna mae'r gwasanaeth yn codi ffi am godi gwastraff ac mae

treialon wedi bod yn Abersoch i weithio gydag Asiantaethau Tai Haf i sicrhau fod gwastraff yn cael ei godi, am ffi, ar ddyddiau penodol.

- Tynnwyd sylw at werth y drefn cydraddoldeb yn yr ymchwiliad, gan ei bod yn hynod bwysig nad oes dirwy annheg yn cael ei unrhyw un.
- Pwysleisiwyd fod rhai ardaloedd angen cynlluniau pendant ble nad oes lleoliadau ar gael i gadw eu biniau. Holwyd yn ogystal fod angen gweithio gyda Landlordiaid yn benodol yn ardal Bangor. Ond mynegwyd fod y polisi yn pwysleisio mai'r tenantiaid sydd yn cael y ddirwyo, ond mae modd dirwyo'r Landlord os nad yw'r cyfarpar cywir ar gael i'r tenantiaid.
- Codwyd pryderon am henoed a phobl bregus a gofynnwyd am sicrhau na fyddant yn cael dirwyon yn syth. Nodwyd na fydd yn digwydd o nodwyd fod yr adran yn gobeithio drwy gael timau penodol yn gweithio mewn ardaloedd y bydd modd magu perthynas a thrigolion mewn ardaloedd.
- Nodwyd y buasai yn syniad i anfon llythyr at y cyn-gynghorwr Lesley Day yn nodi beth yw'r camau sydd wedi ei gymryd yn dilyn ei rhybudd o gynnydd.

9. TROSOLWG ARBEDION 2019/20: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

Cyflwynwyd gan Cyng. Ioan Thomas

PENDERFYNIAD

Nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad a'r cynnydd calonogol tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2019/20 a blynyddoedd blaenorol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad hwn yn un sydd yn dod yn rheolaidd i'r Cabinet i roi trosolwg ar y sefyllfa arbedion yn dilyn adroddiadau perfformiad yr Aelodau Cabinet a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf. Mynegwyd fod £32m o arbedion wedi eu cymeradwyo i'w gwireddu ers 2015/16.

Ychwanegwyd fod 96% o'r cynlluniau arbedion o 2015/16 i 2018/19 bellach wedi eu gwireddu. Mynegwyd fod ychydig o lithriad mewn rhai cynlluniau a bod rhain yn bennaf o 2017/18. Tynnwyd sylw at gynlluniau sydd yn llithro yn yr Adran Addysg, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

Nodwyd o'r cynlluniau arbedion ar gyfer 2019/20 fod 36% o'r cynlluniau wedi eu gwireddu, a 34% arall ar drac i'w cyflawni yn llawn ac amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mynegwyd fod 24 o gynlluniau unai yn llithro, neu â risgiau i gyflawni, a bod 3 cynllun eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet. Tynnwyd sylw at y cynlluniau sydd â risg ynghylch cyflawni, ond mynegwyd fod yr Aelodau Cabinet yn teimlo fod y cynnydd sydd wedi ei wneud yn dderbyniol, ond fod arwyddion o drafferthion cyflawni yn cael eu hamlygu. Pwysleisiwyd y bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i geisio gwireddu'r cynlluniau sydd wedi llithro ac y bydd yr Aelodau Cabinet yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

Pwysleisiwyd y bydd yr holl adrannau, ym mis Hydref, yn adrodd i'w Pwyllgorau Craffu ar sut maent yn bwriadu dygymod gydag unrhyw ddiffyg sydd angen ei gyfarch yn eu cynlluniau arbedion.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod y Cyngor bellach yn gwneud arbedion effeithlonrwydd ers dros 10 mlynedd ond ei bod yn mynd yn anoddach.
- Nodwyd mai un o'r risgiau sydd i'w gweld gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yw'r cynllun "Cynyddu incwm gorfodaeth stryd drwy ddirwyo mwy o unigolion sy'n gollwng sbwriel", ond mynegwyd fod trafodaethau yn cael ei gynnal am hyn.
- Mynegwyd mai trosolwg yw'r adroddiad, a'i bod yn mynd yn anoddach i ddarganfod arbedion, ond bydd modd edrych yn iawn ar y sefyllfa yn dilyn cael mwy o ddealltwriaeth o'r setliad ym mis Hydref / Tachwedd 2019.
- Trafodwyd y setliad tebygol, gan nodi fod mwy o arian am gael ei roi i wasanaethau gan Lywodraeth Prydain, ond fod setliad y Cyngor yn ddirbynol ar sut y bydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu'r arian hwnnw. Mynegwyd fod angen anfon neges at Lywodraeth Cymru yn galw iddynt ariannu chwyddiant tâl a phensiynau, ac awgrymwyd bosib nad yw'r llymder drosodd.
- Nodwyd fod angen llongyfarch y Cyngor am eu gwaith a bod 96% o'r cynlluniau wedi gwireddu.

10. CYTUNDEB CYLLIDEB GYFUN AR GYFER LLETY CARTREFI GOFAL I BOBL HYN 2019-20

Cyflwynwyd gan Cyng. Dafydd Meurig a'r Cyng. Ioan Thomas

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd nodi'r adroddiad ac i nodi'r cynnydd a wnaed yn rhanbarthol o ran bodloni gofynion Rhan 9 o Ddeddf 2014, sy'n cynnwys gofyniad cyfreithiol i sefydlu cronfa gyfun ranbarthol ar gyfer llety cartrefi gofal i bobl hyn.

Cymerwddwyd sefydlu cronfa gyfun, nad yw'n rhannu risg, ar gyfer llety cartrefi gofal i bobl hyn, fel nodwyd yn yr adroddiad, gyda Chyngor Sir Ddinbych yn gweithredu fel awdurdod lletya, ac i'r trefniadau fod yn weithredol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20.

Cymeradwyo i'r Cyngor ymrwymo i gytundeb cyfreithiol rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chwe awdurdod lloel y Gogledd i reoleiddio sefydliad, gweithrediad a threfniadau llywodraethu'r gronfa gyfun am gyfnod o dair blynedd.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru yn gofyn i'r rhanbarth sefydlu cronfa gyfun o ran gwariant

rhanbarthol ar lety cartrefi gofal pobl hyn. Mynegwyd fod y mater yn un technegol a bod trefniadau yn ei lle i gyflawni'r gofynion deddfwriaethol.

Ychwanegwyd fod pwysau yn dod o Lywodraeth Cymru i'r rhanbarth symud ymlaen a'r gyllideb gyfun. Mynegwyd fod y cytundeb yn lleihau'r risg ariannol i'r partneriaid. Ategwyd fod mân newidiadau i'w gwneud i'r cytundeb ond o ran amserlen ac nid yr egwyddorion.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd anhapusrwydd gan nifer o'r aelodau am y ffordd yr oedd y Llywodraeth wedi ein gorfodi i ddilyn y trywydd hwn oedd yn rhoi'r drol o flaen y ceffyl.

11. ADOLYGIAD RHEOLAETHOL

Cyflwynwyd gan Dilwyn Williams

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd peidio â llenwi swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol sydd yn wag er mwyn arbrofi i weld a ellir gwneud hebddi.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan bwysleisio ei fod yn ddilyniant i'r adroddiad a drafodwyd ym mis Mai. Mynegwyd yn yr adroddiad hwnnw fod gofyn i'r Cabinet ystyried a oedd angen dau gyfarwyddwr Corfforaethol yn ogystal a Phrif Weithredwr. Pwysleisiwyd ym mis Mai fod angen mwy o dystiolaeth cyn gallu gwneud a llai ar yr haen hwn, ond y buasai cost diswyddo er mwyn arbrofi yn anferthol. Penderfynwyd ym mis Mai o ganlyniad i hyn na ddylid lleihau'r nifer o Gyfarwyddwyr gan ystyried y sefyllfa ymhellach os y buasai'r cyfle yn codi i arbrofi heb gostau diswyddo.

Mynegwyd bellach fod un swydd Cyfarwyddwr yn wag, ac mae'n rhoi y cyfle i arbrofi i weld os y buasai modd dygymod a Prif Weithredwr ac un Cyfarwyddwraig. Pwysleisiwyd ei fod yn gam rhesymol er mwyn casglu tystiolaeth i weld os y bydd modd gwneud heb yr ail swydd cyfarwyddwr cyn gwneud penderfyniad i'r dyfodol.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.20 y.h.

CADEIRYDD